O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2179 (Cy. 244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Eglwyswrw, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*22 Awst 2012*
Yn dod i rym	*1 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd neu ei wahardd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Eglwyswrw, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Eglwyswrw yn Sir Benfro sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4329 i bwynt 700 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw